Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Hosbis St Anne
# Harding Avenue
# Malpas
# Casnewydd
# NP20 6ZE

# Arolygiad 2009/2010

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

**www.hiw.org.uk**

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2010
E6130910

| Dyddiad yr Arolygiad: | Rheolwr Arolygu ac Adolygwyr: |
|---|---|
| 17 Tachwedd 2009 | Dr H Davies |

## Cyflwyniad

Mae’n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). AGIC sy’n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru, ac yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y mae wedi’i ddynodi fel yr awdurdod cofrestru.

I gofrestru, mae’n rhaid iddynt ddangos cydymffurfiad â Deddf Safonau Gofal 2000 a’r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn profi cydymffurfiad darparwyr trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o *Safonau Gofynnol Cenedlaethol*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy’n nodi’r safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau iechyd annibynnol. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â’r safonau a’r rheoliadau ar ein gwefan: **www.hiw.org.uk**.

Mae’n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau’r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr ddod i’r casgliad bod amgylchiadau’r gwasanaeth yr un fath bob amser.

## Cefndir a’r Prif Ganfyddiadau

Hosbis sy’n darparu gofal seibiant a lliniarol i oedolion â salwch angheuol yw St Anne’s. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr hosbis wedi cael ei symud i ward ym mhrif Ysbyty St Joseph tra bod gwaith yn cael ei wneud ar y ffordd a’r hosbis yn cael ei ailwampio. Byddant yn dychwelyd i brif safle’r hosbis ddiwedd mis Tachwedd 2009. Ceir deg gwely yn y sefydliad. Ceir cyfleusterau parcio da. Roedd y Datganiad o Ddiben wedi’i adolygu a hysbyswyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y manylion cofrestru.

Ceir mynediad i’r hosbis trwy gyntedd ac mae’r dderbynfa wedi’i lleoli yn yr ardal hon er mwyn sicrhau y gellir gweld a chroesawu unigolion sy’n dod i mewn i’r adeilad. Mae’r holl gyfleusterau ar y llawr gwaelod.

Nod St Anne’s yw darparu awyrgylch mor gartrefol â phosibl lle sicrheir mai’r cleifion yw’r flaenoriaeth. Roedd yr awyrgylch yn gadarnhaol iawn. Anogir aelodau staff i ddatblygu gofal ac maent yn mwynhau gweithio yno. Yn glinigol, mae’r amgylchedd yn cefnogi gofal o safon dda.

Mae’r gofal yn bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a’r nod yw sicrhau bod gofal yn cael ei wella’n barhaus. Mae’r driniaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar unigolion ac roedd yr asesiadau o anghenion yn drylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth a gydnabyddir. Mae’r gofal lliniarol a ddarperir yn seiliedig ar safonau Cymru Gyfan. Roedd yr aelodau staff yn ymwybodol o’r safonau hyn, a chânt eu monitro a’u harchwilio yn barhaus. Roedd gweithdrefnau a pholisïau ar gael ac fe’u defnyddir gan aelodau staff i lywio’r gofal dros dro.

Mae gan St Anne's ddatganiad o ddiben eglur, a chanllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cynnwys gwybodaeth hawdd ei deall. Mae'r canllaw hwn ar gael yn ystafelloedd pob un o'r cleifion. Mae'r wybodaeth a ddarperir i gleifion, teuluoedd a gofalwyr yn eglur ac yn hawdd ei deall. Mae polisi derbyn yr hosbis, y datganiad o ddiben, gwefan yr hosbis a llyfryn yr hosbis yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig am fynediad, meini prawf ar gyfer atgyfeirio, a'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd llyfryn yr hosbis wrthi'n cael ei ddiweddaru.

Mae gan hosbis St Anne adroddiad blynyddol manwl ar gael i ddarpar gleifion/teuluoedd ac aelodau staff.

### Holiadur Cleifion

Mae arolwg bodlonrwydd cleifion wedi'i sefydlu er mwyn i'r hosbis allu nodi a oes gan gleifion a/neu eu teuluoedd unrhyw bryderon, neu a ydynt yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar y gofal. Nodwyd a chymeradwywyd fformat yr arolwg, sy'n hawdd ei ddefnyddio. Roedd yr holiadur cleifion yn cynnwys adborth ar breifatrwydd, urddas a chwrteisi a cheir dull archwilio ar gyfer hyn sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

### Ansawdd Gofal

Mae'r gofal yn canolbwyntio ar unigolion, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac o safon uchel. Darperir gofal gan ddefnyddio model nyrsio sy'n seiliedig ar fodel Roper, Logan a Tierney o weithgareddau byw beunyddiol. Ceir llwybr gofal asesu wrth dderbyn ac mae llwybr gofal Diwedd Oes ar waith fel sy'n briodol. Mae systemau monitro ac archwilio eglur wedi'u sefydlu. Ystyrir preifatrwydd, urddas a hunaniaeth unigol y cleifion ac mae gweithdrefnau diogelu data ar waith yn unol â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfrinachedd. Mae'r hosbis yn uned fach ac o ganlyniad mae'r holl gleifion yn adnabod pob aelod o staff. Mae St. Anne's wedi datblygu cysylltiadau cryf gyda Sefydliad Dewi Sant a daw mwyafrif yr atgyfeiriadau gan nyrsys Dewi Sant. Mae un o nyrsys Dewi Sant yn mynd i'r cyfarfodydd amlddisgyblaeth wythnosol yn hosbis St Anne.

Cynhelir systemau a threfniadau'r gwasanaeth arlwyo ym mhrif adeilad Ysbyty St Joseph. Mae'r rheolwr arlwyo yn sicrhau cysylltiad effeithiol gyda rheolwr yr hosbis a'r cleifion o ran diet a dewis o brydau. Cynigir tri phryd llawn y diwrnod i bob claf a/neu cânt ddewis un pryd wedi'i goginio'r diwrnod o leiaf oddi ar fwydlen.

Mae'r datganiad o ddiben yn nodi bod cleifion yn cael dewis eu bwyd oddi ar y fwydlen, a bod y gwasanaeth arlwyo a/neu ddietegydd yr ysbyty cyffredinol ardal yn darparu ar gyfer unrhyw ofynion dietegol arbennig. Darperir ar gyfer anghenion crefyddol a diwylliannol ac mae aelod o'r staff arlwyo wedi dilyn cwrs ar ddietau arbennig. Roedd arolygon bodlonrwydd â phrydau bwyd wedi cael eu cynnal. Mae gan yr hosbis siop goffi a redir gan wirfoddolwyr, ac mae ar agor yn feunyddiol fel rheol.

### Trefniadau ar gyfer Gofal

Gwelwyd, wrth drafod ag aelodau staff, bod cleifion a'u teuluoedd yn cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae aelodau staff yn rhyngweithio â'r cleifion, a chynhelir system o neilltuo cleifion i bob aelod o staff yn feunyddiol er mwyn darparu parhad o ran gofal. Nodwyd a chymeradwywyd bod cleifion hefyd yn

cytuno a llofnodi ymyriadau gofal, fel y cofnodir yn eu cynlluniau gofal. Cyflogir ymgynghorydd gofal lliniarol yn yr hosbis ac asesir cleifion yn feddygol a gofelir amdanynt yn barhaus. Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn cyfarfod yn wythnosol i drafod atgyfeiriadau newydd, a chaiff y cyfarfodydd hyn eu cofnodi. Trafodir atgyfeiriadau brys gan y tîm clinigol er mwyn osgoi oedi wrth dderbyn y cleifion os oes angen. Mae gwaith cynllunio ar gyfer rhyddhau yn gynhwysfawr a cheir trefniadau ar gyfer sicrhau bod asiantaethau eraill ac offer ar gael ar adegau rhyddhau.

### Cofnodion Gofal

Mae cleifion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses o benderfynu ar eu gofal, dilynir arferion gwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chofnodir pob gofal yn feunyddiol. Penderfynir ar ofal yn unol ag anghenion cleifion unigol ac roedd y cofnodion am y cleifion yn helaeth ac yn barhaus.

### Gofalu am y Rhai sy'n Marw

Mae polisïau/gweithdrefnau wedi'u sefydlu ynglŷn â chael perthnasau'n aros dros nos, y camau i'w cymryd ar adeg y farwolaeth, a golchi'r corff. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar wahanol ddiwylliannau ethnig a chrefyddol. Mae trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer eiriolaeth, cyngor profedigaeth personol a gofal bugeiliol.

### Polisïau a Gweithdrefnau

Mae ffolder polisïau a gweithdrefnau ganolog ar gael yn ysbyty St Joseph, ac mae'n cael ei gwerthuso a'i diweddaru'n rheolaidd. Mae hon ar gael i'r staff yn yr amgylchedd gofal, a cheir system gyfredol i aelodau staff lofnodi i ddangos eu bod wedi darllen dogfennau polisi newydd.

### Rheoli Personél

Mae gan hosbis St Anne strwythur sefydliadol a rheoli eglur. Mae gan reolwr yr hosbis gymwysterau a phrofiad priodol i sicrhau gofal boddhaol i'r cleifion. Mae polisïau/gweithdrefnau adnoddau dynol ar gael yn ymwneud ag ymddygiad, a chamau a threfniadau disgyblu. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu o ran (chwythu'r chwiban) er mwyn i aelodau staff fod yn gyfforddus ynglŷn â hysbysu aelodau staff uwch am bryderon neu arferion gofal gwael. Mae'r llawlyfr staff yn cynnwys gwybodaeth am sut i godi pryderon.

Ceir system addysg a datblygiad personol barhaus ar gyfer pob aelod o staff. Fodd bynnag, mae angen archwiliad a chynllun gweithredu dilynol i sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael ei addysgu a'i hyfforddi ar bob agwedd ar ofal lliniarol. Cynhelir archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer pob aelod o staff ac mae systemau wedi'u sefydlu i sicrhau bod cymwysterau proffesiynol pob aelod o staff yn gyfredol. Mae polisïau a gweithdrefnau personél priodol wedi'u sefydlu.

Cedwir cofnodion o gwynion yn hosbis St Anne ac fe'u harchwilir yn rheolaidd gan gymryd camau yn sgil y canlyniadau. Caiff cwynion eu trin yn gadarnhaol er mwyn gwella'r gofal a'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r hosbis wedi sefydlu systemau ar gyfer dilysu cofrestriadau gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr ac aelodau staff sydd wedi cymhwyso a rhai heb gymhwyso.

Mae goruchwyliaeth glinigol i aelodau staff yn cynnwys goruchwyliaeth grŵp clinigol misol, er bod goruchwyliaeth 1:1 ar gael pe byddai'r aelodau staff yn dymuno hynny. Roedd y system wrthi'n cael ei hadolygu a bwriadwyd gwneud newidiadau i wella'r gwasanaeth os oes eu hangen.

### Amddiffyn Oedolion

Mae gweithdrefn amddiffyn oedolion wedi'i sefydlu. Roedd cofnodion yn dangos bod hyfforddiant Amddiffyn Oedolion wedi cael ei ddarparu.

### Rheoli Risg

Mae strategaeth rheoli risg gynhwysfawr wedi'i sefydlu ar gyfer y sefydliad cyfan. Cynhelir cyfarfodydd rheoli risg yn rheolaidd. Mae asesiadau risg manwl wedi'u sefydlu a nodir y camau dilynol i'w cymryd yng nghyswllt y risgiau a ganfyddir. Yn glinigol, mae systemau wedi'u sefydlu i leihau risgiau i aelodau staff a chleifion, fel polisïau codi a chario, ac addysg a hyfforddiant ar ddefnyddio offer meddygol.

Anfonir hysbysiadau o beryglon i'r Prif Weithredwr ac yna fe'u rhennir â holl aelodau'r staff trwy broses ffurfiol.

### Iechyd a Diogelwch

Mae polisi/gweithdrefn iechyd a diogelwch wedi'i sefydlu. Mae gan yr ysbyty Swyddog Iechyd a Diogelwch enwebedig a Phwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae aelodau staff o ysbyty St Joseph a hosbis St Anne yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Cedwir cofnodion pob cyfarfod a gynhelir a rhennir gwybodaeth gyda phob aelod o staff yn y sefydliad.

Enwebwyd personél cymorth cyntaf, a cheir bocsys cymorth cyntaf a mannau golchi'r llygaid. Mae personél allweddol wedi'u nodi o ran y defnydd o nwyon meddygol.

Mae polisïau/gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer defnyddio meddyginiaethau'n ddiogel, ac ar gyfer eu defnyddio y tu allan i delerau trwydded y cynnyrch.

### Hyfforddiant Tân i Aelodau Staff

Roedd Asesiad cyfredol o'r Risg o Dân ar gael. Enwebwyd unigolyn i fod yn gyfrifol am ddiogelwch tân ar y safle.

### Rheoli Heintiau

Mae polisïau/gweithdrefnau wedi'u sefydlu o ran systemau ar gyfer prosesau dadhalogi, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau.

Roedd strategaeth gyfathrebu ar gael o ran Adran Iechyd Cyhoeddus leol y GIG.

### Contractau

Mae polisïau/gweithdrefnau wedi'u sefydlu o ran contractau ar gyfer caffael gwasanaethau a nwyddau. Mae trefniadau Monitro Sicrhau Ansawdd ar gael o ran gwasanaethau a nwyddau sy'n cael eu caffael ac sy'n berthnasol i'r hosbis.

Cynhelir archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o drefniadau contractau a pharatoir canllawiau ar gamau i'w cymryd os nad yw'r gwasanaethau/nwyddau o'r ansawdd gofynnol.

### Rheoli Cofnodion

Mae polisïau/gweithdrefnau wedi'u sefydlu o ran creu, rheoli, trin, storio a dinistrio cofnodion yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol  (Cymru) (2002, Diwygiwyd - 2007). Mae personél wedi'u dynodi i fod yn gyfrifol am yr adran cofnodion meddygol.

### Cofnodion Iechyd

Roedd cofnodion cleifion yn eglur, yn helaeth ac yn gyfredol ac mae pob aelod o'r tîm amlddisgyblaeth yn defnyddio'r un system gofnodion. Mae'r rhain yn cynnwys set o gofnodion amlddisgyblaeth a gwblheir gan y tîm amlddisgyblaeth. Roedd yr hosbis hefyd yn gallu cysylltu ag ISCO (system data cofnodion electronig) yn Ysbyty Felindre, sy'n cyfrannu at ofal di-dor i unigolion.

Roedd y cofnodion a welwyd yn eglur ac wedi'u dyddio a'u llofnodi. Cedwir cofnodion ychwanegol yn ymwneud â gofal cleifion unigol ar glipfwrdd gyda'u siartiau presgripsiwn. Nodir a chymeradwyir bod y gofal a ddarperir gan yr hosbis yn ymestyn i berthnasau/teuluoedd y cleifion. Cafwyd dihangfa lwcus ar ambell achlysur wrth roi cyffuriau, a sefydlwyd system newydd o arfer myfyriol i sicrhau bod y problemau posibl hyn yn codi cyn lleied â phosibl.

### Systemau Gwybodaeth

Mae strategaeth wybodaeth wedi'i sefydlu ac mae unigolyn wedi'i ddynodi i fod yn gyfrifol am Systemau Gwybodaeth.

## Cyflawniadau a chydymffurfiad

Nid oedd unrhyw ofynion heb eu bodloni o arolygiad 2008-2009.

## Mathau o Gofrestriad

Caiff y cofrestriad hwn ei gymeradwyo yn unol â'r math o wasanaeth a ddarperir.
Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth

| Disgrifiad |
| --- |
| **Ysbyty Annibynnol** |
| **Math o wasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty annibynnol:**<br>• **Gofal lliniarol – Hosbis i oedolion** |

## Amodau'r Cofrestriad

Mae'r cofrestriad hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol. Archwilir pob amod ar gyfer cydymffurfiad. Disgrifir y dyfarniad fel bod Yn Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

| Rhif yr Amod | Amod y Cofrestriad | Dyfarniad |
| --- | --- | --- |
| 1. | Nigel Morris yw'r rheolwr | Yn Cydymffurfio |
| 2. | Ni ddylai nifer yr unigolion sy'n derbyn llety yn yr hosbis fod yn fwy na deg | Yn Cydymffurfio |
| 3. | Mae'r hysbysiad staffio a gyflwynwyd ar 7 Medi 1984 yn amod y cofrestriad. | Yn Cydymffurfio |

## Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau ar safleoedd er mwyn asesu safonau. Pe byddem yn canfod meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu lle nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau, neu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddangos y cyflawnir y lefel ofynnol o berfformiad, rhoddir gwybod i'r unigolyn cofrestredig am hyn drwy gyfrwng yr adroddiad arolygu hwn. Gall fod achlysuron hefyd pan ganfyddir methiannau mwy difrifol neu sydd angen sylw di-oed, ac efallai bod yr unigolyn cofrestredig hefyd wedi'i hysbysu ynglŷn â'r canfyddiadau a'r camau sydd i'w cymryd trwy lythyr, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar yr angen a pha mor aml y dylid adolygu'r sefydliad ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys: Hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau ynglŷn ag ymweliadau'r darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth berthnasol am yr unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Wrth asesu pob safon, yr ydym yn defnyddio pedwar datganiad i nodi'r canlyniad:

| | |
|---|---|
| Safon wedi'i bodloni | Dim diffygion: yn cyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad |
| Safon bron wedi'i bodloni | Mân ddiffygion: dim diffygion mawr a'r lefelau gofynnol o berfformiad yn ymddangos yn gyraeddadwy heb orfod cymryd camau ychwanegol o bwys |
| Safon heb ei bodloni | Diffygion difrifol: angen cymryd camau sylweddol i gyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad |
| Safon heb ei harolygu | Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu oherwydd na nodwyd unrhyw risg yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y sefydliad neu asiantaeth neu am y sefydliad neu asiantaeth, ac felly penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn |

## Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon.

- Safonau craidd
- Safonau sy'n benodol i'r gwasanaeth

Talfyriadau ar gyfer y Safonau:

C = Safonau craidd
A = Safonau acíwt
MH = Safonau iechyd meddwl
H = Safonau hosbis
MC = Safonau mamolaeth
TP = Safonau terfynu beichiogrwydd
P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig
PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi llwyr fodloni unrhyw un o'r safonau isod, yr ydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad penodol ar ddiwedd yr adroddiad. Gall methu â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod y digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser. Weithiau bydd gwasanaethau'n gwella ac weithiau byddant yn dirywio.

## Safonau Craidd

| Rhif | Testun y Safon | Asesiad |
|---|---|---|
| C1 | Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth | Safon wedi'i bodloni |
| C2 | Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf | Safon wedi'i bodloni |
| C3 | Mae triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol | Safon wedi'i bodloni |
| C4 | Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro | Safon wedi'i bodloni |
| C5 | Trafodir gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif | Safon wedi'i bodloni |
| C6 | Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion | Safon wedi'i bodloni |
| C7 | Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau | Safon wedi'i bodloni |
| C8 | Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau | Safon wedi'i bodloni |
| C9 | Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol | Safon wedi'i bodloni |
| C10 | Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol | Safon wedi'i bodloni |
| C11 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol | Safon wedi'i bodloni |
| C12 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol | Safon wedi'i bodloni |
| C13 | Nid yw'r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firysau a gludir yn y gwaed | Safon wedi'i bodloni |
| C14 | Caiff plant sy'n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin | Safon heb ei harolygu |
| C15 | Caiff oedolion sy'n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin | Safon wedi'i bodloni |
| C16 | Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion | Safon wedi'i bodloni |
| C17 | Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn | Safon wedi'i bodloni |
| C18 | Mae'n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael | Safon wedi'i bodloni |
| C19 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac sy'n addas ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy'n mynychu'r safle i gael triniaeth | Safon wedi'i bodloni |

| Rhif | Testun y Safon | Asesiad |
|---|---|---|
| C20 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac sydd mewn cyflwr da | Safon wedi'i bodloni |
| C21 | Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyo priodol | Safon wedi'i bodloni |
| C22 | Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy'n dod i ymweld â'r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, y triniaethau a'r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol | Safon wedi'i bodloni |
| C23 | Mae'r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu | Safon wedi'i bodloni |
| C24 | Mae camau wedi eu sefydlu ar gyfer sicrhau rheoli a thrin meddyginiaethau yn ddiogel | Safon bron wedi'i bodloni |
| C25 | Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel | Safon bron wedi'i bodloni |
| C26 | Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a'u dinistrio yn briodol | Safon bron wedi'i bodloni |
| C27 | Mae'r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ran dal afiechyd a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei leihau cymaint â phosib | Safon wedi'i bodloni |
| C28 | Ni roddir triniaeth i gleifion gyda dyfeisiadau meddygol halogedig | Safon wedi'i bodloni |
| C29 | Caiff cleifion eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol | Safon wedi'i bodloni |
| C30 | Mae contractau yn sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol | Safon wedi'i bodloni |
| C31 | Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a'u storio i safon sy'n bodloni cydymffurfiad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol | Safon wedi'i bodloni |
| C32 | Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol | Safon wedi'i bodloni |
| C33 | Sicrheir cleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion | Safon wedi'i bodloni |
| C34 | Caiff unrhyw ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd awdurdodedig a phriodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil | Safon wedi'i bodloni |

## Safonau sy'n benodol i'r gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol i'r math o sefydliad a archwiliwyd

| Rhif | Safonau'r Hosbis | Asesiad |
|---|---|---|
| H1 | Trefniadau ar gyfer gofal mewn hosbisau | Safon wedi'i bodloni |
| H2 | Arbenigedd mewn gofal lliniarol a hyfforddiant ar gyfer timau aml-broffesiynol | Safon bron wedi'i bodloni |
| H3 | Asesiad o anghenion y claf a'r gofalydd | Safon wedi'i bodloni |
| H4 | Darparu gofal lliniarol | Safon wedi'i bodloni |
| H5 | Cofnodion gofal | Safon wedi'i bodloni |
| H6 | Rheoli heintiau | Safon wedi'i bodloni |
| H7 | Dadebru | Safon wedi'i bodloni |
| H8 | Cyfrifoldeb dros wasanaethau fferyllol | Safon wedi'i bodloni |
| H9 | Archebu, cadw, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau | Safon bron wedi'i bodloni |

| | | |
|---|---|---|
| H10 | Rhoi meddyginiaethau | Safon bron wedi'i bodloni |
| H11 | Hunanfeddyginiaethu | Safon wedi'i bodloni |
| H12 | Cadw a chyflenwi nwyon meddygol | Safon wedi'i bodloni |
| H13 | Asesu a gofalu am blant | Safon wedi'i bodloni |
| H14 | Cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gofalu am blant | Safon wedi'i bodloni |
| H15 | Yr amgylchedd gofal i blant | Safon wedi'i bodloni |

## Atodlenni gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi mewn cofnodion penodol.

| Atodlen | Manylion | Asesiad |
|---|---|---|
| 1 | Gwybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad o ddiben | Safon wedi'i bodloni |
| 2 | Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad | Safon wedi'i bodloni |
| 3 (Rhan I) | Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol | Safon wedi'i bodloni |
| 3 (Rhan II) | Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harolygu | Safon wedi'i bodloni |
| 4 (Rhan I) | Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg | Safon heb ei harolygu |
| 4 (Rhan II) | Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol | Safon heb ei harolygu |

## Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y chwith, a gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr 'unigolyn cofrestredig' yw'r gofynion, a gaiff fod naill ai'r darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu 'cynllun gweithredu' yn cadarnhau sut y maent yn bwriadu cyflawni'r camau gofynnol, a bydd yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliad a nodir os bydd angen gwneud hynny.

| Safon | Rheoliad | Gofyniad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| H2 .2, 6, 9. | Rheoliad 17(2)(a)(b) | **Canfyddiadau**<br>Nid oes dogfennau eglur ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant staff.<br><br>**Camau Gofynnol**<br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig gynnal archwiliad o addysg a hyfforddiant pob aelod o staff yr hosbis a datblygu cynllun gweithredu i roi'r broses hon ar waith. | Ionawr 2010 |

| Safon | Rheoliad | Gofyniad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| C25. 1,4. C26.1 | Rheoliad 14(5) | **Canfyddiadau**<br>Rhai llofnodion ar goll o'r llyfr cofnodi cyffuriau a reolir.<br><br>**Camau Gofynnol**<br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y cofnodir pob llofnod yn y llyfr cofnodi cyffuriau a reolir. | 48 awr (Cwblhawyd) |

## Argymhellion

Gall argymhellion fod yn berthnasol i agweddau ar y safonau neu ganllawiau cenedlaethol. Fe'u gwneir er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond ni chânt eu gorfodi yn gyffredinol.

Ni wnaed unrhyw argymhellion.

Diben bodolaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw hybu gwelliant mewn iechyd a gofal iechyd. Mae gennym ddyletswydd statudol i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd y GIG, a chydgysylltu adolygiadau gofal iechyd a gynhelir gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoliadol ar sefydliadau gofal iechyd a chydweddu asesiadau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG ag asesiadau'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod nad yw ar gyfer adwerthiant masnachol. Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir, ac ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn modd niweidiol na chyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod mai © 2010 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r deunydd, gan nodi teitl y ddogfen. Dylai ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu fod yn ysgrifenedig a dylid eu hanfon at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED.